

Darren Millar AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1NA

CYDWEITHIO RHWNG AGGCC, ESTYN, AGIC A SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rwyf yn ysgrifennu i'ch hysbysu am ddatblygiadau yn ymwneud â'r cydweithio rhwng y pedwar prif sefydliad arolygu, archwilio a rheoleiddio yng Nghymru - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

Gyda'i gilydd, mae'r pedwar sefydliad yn gyfrifol am adolygu'n allanol y rhan fwyaf o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Dros y blynyddoedd, mae'r sefydliadau adolygu allanol wedi cydweithio mewn sawl gwahanol ffordd mewn meysydd a oedd yn gorgyffwrdd neu feysydd lle yr oedd ganddynt ddiddordeb cyffredin, pan fu'n fwy effeithiol ac effeithlon iddynt gydweithio yn hytrach na gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, rydym wedi cydnabod ac ymateb i'r angen cynyddol i gydweithio a chydgyssylltu gweithgareddau'r pedwar sefydliad mewn modd mwy strwythuredig ac agored.

Ym mis Medi 2009, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei datganiad polisi ynglŷn ag Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru. Gan gydnabod y gwahanol lefelau o annibyniaeth sydd gan y pedwar sefydliad adolygu allanol, roedd y datganiad polisi yn cynnwys cynigion i Lywodraeth y Cynulliad a'r sefydliadau adolygu allanol eu gweithredu. Yfory (18 Mawrth), bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi adroddiad cynnydd ynglŷn â'r camau y mae wedi eu cymryd mewn ymateb i'r datganiad polisi.

Er mai datganiad polisi Llywodraeth y Cynulliad ydyw, mae'r pedwar sefydliad adolygu allanol wedi cytuno ar yr egwyddorion a nodir ynddo. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i ddatblygu fframwaith mwy cadarn ar gyfer cydweithio mewn meysydd lle y ceir diddordeb cyffredin, i helpu i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer gwaith adolygu allanol, ac i ddangos yn fwy eglur bod y pedwar sefydliad, gyda'i gilydd, yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn modd cydgysylltiedig.

Mae Grŵp Penaethiaid Arolygiaethau, a gefnogir gan ysgrifenyddiaeth benodedig, wedi ei sefydlu i ddatblygu'r agenda gydweithio, gan gynnwys camau gweithredu yn ymwneud â datganiad polisi Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Grŵp yn cyfarfod yn aml ac, ar ddydd Llun, 21 Mawrth, byddwn yn cyhoeddi cytundeb strategol rhwng y pedwar sefydliad adolygu allanol, *Cydweithio i gefnogi gwelliant*, ynghyd â phapur, *Datblygu ein gwaith gyda'n gilydd mewn hinsawdd o newid*, sy'n disgrifio sut y mae AGGCC, Estyn, AGIC a SAC yn ymateb ar y cyd i'r agenda polisi cyhoeddus yng Nghymru a'r hinsawdd newid bresennol.

Mae'r dogfennau perthnasol ynghlwm. Gobeithiaf y byddwch o'r farn eu bod yn ddefnyddiol.

Yn gywir

HUW VAUGHAN THOMAS

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Copi at: Imelda Richardson
Ann Keane
Peter Higson
Betsan O'Connor

I'w hatodi: Datganiad polisi Llywodraeth y Cynulliad
Adroddiad cynnydd Llywodraeth y Cynulliad
Cytundeb strategol, *Cydweithio i gefnogi gwelliant*
Papur sylwadau'r Penaethiaid, *Datblygu ein gwaith gyda'n gilydd mewn hinsawdd o newid*